Deiliaid FMM

Forestry Commission
231 Corstorphine Road
EDINBURGH
EH12 7AT

Fy nghyfeirnod: FM3.4.34

MEMORANDWM RHEOLI COEDWIGOEDD 34
PANELI AMGYLCHEDDOL

Cwmpas a Diben

Mae'r memorandwm hwn yn nodi polisi Menter Coedwigaeth ar Baneli Amgylcheddol.

Cefndir

Mae'r Paneli Cadwraethol wedi bod o fudd i Reolwyr Ardal Goedwig gan roi gwybodaeth iddynt ar sut y gellir gwella gwerth cadwraethol yr ystâd. Gan fod pwyslais cynyddol ar fuddion lluosog, bydd cwmpas y paneli hyn yn cael ei ledu i gynnwys pob agwedd amgylcheddol ar ein rheolaeth ar y goedwig, a'r defnydd hamdden ohoni.

Gweithred

Bydd pob Ardal Goedwig yn sefydlu Panel Amgylcheddol newydd neu'n ehangu amodau gorchwyl y Paneli Cadwraethol sydd eisoes yn bodoli gan roi cyhoeddusrwydd priodol fel bod yna ymwybyddiaeth yn lleol am fodolaeth y Panel a'i nodau ac amcanion. Y bwriad yw bod pob Panel wedi cyfarfod o leiaf unwaith erbyn diwedd Mawrth 1993.

Cyswllt

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r memorandwm hwn at Richard Toleman, Is-adran Rheoli Coedwigoedd, y Pencadlys.

J Dewar
Is-adran Rheoli Coedwigoedd
Tachwedd 1992

FMM34
(Tach 92)

PANELI AMGYLCHEDDOL

Cefndir

1. Mae nodau'r Comisiwn Coedwigaeth yn croesawu rheoli'r ystâd am gynnyrch y tu allan i'r farchnad yn ogystal â chynnyrch marchnadadwy. Gan nad oes mecanwaith brisio, mae'n anos adnabod y galw am fuddion y tu allan i'r farchnad, rhoi Pwysiadau cymharol ar gyfer gwahanol gynnyrch a datblygu atebion cost effeithiol. Fel Rheolwyr Coedwigoedd, efallai ein bod ni'n meddwl ein bod yn gwybod beth mae'r cyhoedd ei eisiau a sut gall yr ystâd ddarparu hyn orau ond mae ein penderfyniadau ni'n debygol o fod ar sail well os ydym wedi ymgynghori â'r bobl rydym ni'n ceisio eu gwasanaethu.

2. Ystyrir bod y Paneli Amgylcheddol yn fecanwaith defnyddiol ar gyfer cyfnewid safbwyntiau a gwybodaeth ar sut gall y CC a sut y mae'r CC yn rheoli coedwigoedd ar gyfer buddion hamdden, Cadwraeth a thirwedd. Mae'r memorandwm hwn yn nodi polisi'r Comisiwn Coedwigaeth ynghylch paneli ac yn gosod y fframwaith y byddant yn gweithredu oddi fewn iddo.

Polisi

3. Bydd pob Ardal Goedwig yn ymgynnull Paneli Amgylcheddol. Bydd Cyfarwyddwyr Rhanbarthol yn sicrhau bod paneli yn gweithredu ym mhob Ardal Goedwig a bydd yr Is-adran Rheoli Coedwigoedd yn monitro cynnydd yn genedlaethol.

Nodau ac Amcanion

4. Nodau bras y Paneli Amgylcheddol yw:

   Cynghori Rheolwyr coedwigoedd ar sut y gellir rheoli'r ystâd i ddiogelu nodweddion gwerthfawr a chynyddu buddion y tu allan i'r farchnad, yn enwedig i gymunedau lleol.

5. Gallai fod yn fuddiol ymestyn hwn yn set o amcanion manylach i adlewyrchu natur a photensial yr ystâd a materion o bryder lleol. Dylai aelodau'r panel gefnogi'r amcanion ac ar ôl eu mabwysiadu nhw, dylid eu parchu a glynu wrthynt oni bai bod rheswm da iawn dros newid. Cytunir ar amcanion ac unrhyw newidiadau gan y Cyfarwyddwr Rhanbarthol.

6. Ni fwriedir i'r paneli fabwysiadu cyfansoddiad yn ffurfiol ac eithrio y bydd pob cyfarfod yn cael ei gadeirio gan aelod o staff y CC. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod pob aelod yn ymwybodol o bwrpas y panel, ei amcanion a'i swyddogaeth. Bydd yn glir mai cyfrwng ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a barn 2-ffordd a fforwm ar gyfer trafod yw'r panel. Nid oes gan y paneli swyddogaeth reolaethol.

7. Nid y paneli fydd yr unig ddull o gyfathrebu â'r cyhoedd. Gellir cynnal cyfarfodydd agored i esbonio ein cynlluniau a'n polisïau fel bo'r angen a byddant yn ategu gwaith y paneli.

Cyfansoddiad

8. Y Rheolwr Ardal Goedwig fydd yn pennu cyfansoddiad pob panel, gan ystyried safbwyntiau'r panel. Dylid gwahodd aelodau am eu harbenigedd a / neu eu safle mewn cymunedau lleol. Dylent hefyd ddangos diddordeb yng ngwaith y panel. Bydd aelodau amharod yn annhebygol o fod o werth. Dylid rhoi blaenoriaeth i bobl sy'n byw o fewn ardal y panel.

9. Dylai penodiad cychwynnol i'r panel fod am 2 i 3 blynedd gyda'r opsiwn am ailbenodiad am 2 flynedd arall. Dylai'r niferoedd fod rhwng 7 a 10 gan gynnwys y cadeirydd o'r CC. Bydd trwyth cyson o aelodau newydd yn helpu ehangu trafodaethau ac yn osgoi unrhyw un diddordeb yn dominyddu.

10. Mewn sawl achos, bydd aelodau hefyd yn weithwyr neu'n gynrychiolwyr o sefydliadau y mae'r CC yn delio â nhw yn barod. Fodd bynnag, ni ddylai paneli weithredu yn lle cysylltu, os yw'n briodol, â chyrff statudol ac asiantaethau'r Llywodraeth.

Ymdriniaeth

11. Er y gall un Panel Amgylcheddol fod yn ddigonol i ymdrin ag Ardal Goedwig gyfan, gall fod manteision o gael 2 neu fwy lle mae gwasgariad daearyddol eang, cymunedau sy'n amlwg yn wahanol (e.e. ynysoedd) neu bynciau i'w trafod sy'n amlwg yn wahanol.

Cynnal Cyfarfodydd

12. Bydd aelodau'r panel yn dangos mwy o ymroddiad i waith y panel os cânt gyfle i godi materion ac os cânt wrandawiad teg a derbyn adborth ar sut mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn ymateb i drafodaethau'r panel.

13. Dylid osgoi gwaith papur gormodol ond dylid gwahodd aelodau'r panel i gyfrannu eitemau i'r agenda a dylid rhoi agenda ac unrhyw bapurau briffio iddynt o flaen llaw.

14. Ni fydd pob aelod ac ni ddylai pob aelod fod yn ymwneud yn broffesiynol â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd neu'r goedwig. Gallant felly ei chael hi'n anodd mynychu cyfarfodydd yn ystod oriau gwaith arferol. Dylid rhoi ystyriaeth felly i gynnal rhai cyfarfodydd gyda'r nos neu ar benwythnosau. Gellir ad-dalu treuliau rhesymoli aelodau lleyg.

Cyhoeddusrwydd

15. Dylid cyhoeddi lansiadau'r paneli trwy ddatganiadau i'r wasg a dylid gwahodd newyddiadurwyr lleol i fynychu cyfarfodydd paneli.

Teitl

16. Trwy'r memorandwm hwn, defnyddiwyd "Panel Amgylcheddol" i ddisodli "Panel Cadwraethol". Hwn yw'r teitl sydd orau gennym ond gellir mabwysiadu teitlau eraill pan fydd mwy nag un panel mewn Ardal Goedwig yn delio â thestunau gwahanol.

D L Foot

Tachwedd 1992